Yn erbyn cefndir o newid digynsail, mae S4C am adnewyddu ei safle fel conglfaen y Gymraeg i bawb, beth bynnag fo gallu ieithyddol pobl.  Drwy greu a chynnal sgwrs am y Gymraeg, nod S4C yw i:

- Greu trafodaeth am hunaniaeth Gymreig a'r iaith drwy ystod o lwyfannau;
- Sbarduno diddordeb pobl mewn siarad a dysgu Cymraeg a darganfod mwy am dreftadaeth a diwylliant Cymru;
- Chwalu'r rhwystrau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg drwy ail-leoli agweddau a chanfyddiadau; a
- Chynyddu ffigyrau gwylio llinol a digidol S4C ac S4C Clic, gwasanaeth chwaraewr y sianel.

Drwy'r Ymgyrch, bydd siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn cael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth am rôl yr iaith yn ein hunaniaeth a'n dyfodol.  Bydd y sgwrs yn seiliedig ar flwyddyn o raglennu a fydd yn codi proffil yr iaith ac yn cynnig ffyrdd o ymgysylltu drwy ddull aml-blatfform.

Bydd dwy gyfres cyweirnod yn ymddangos yn amserlen S4C yn ystod cyfnod yr Ymgyrch:

- 'Iaith ar Daith' – cyfres yn cynnwys parau o enwogion gwahanol (un siaradwr Cymraeg ac un dysgwr Cymraeg) yn teithio drwy Gymru yn ymgymryd â heriau iaith (a fwriedir i'w darlledu yng Ngwanwyn 2020); a
- 'Hanes yr Iaith' – cyfres ddogfen fanwl am hanes yr iaith Gymraeg (a fwriedir i'w darlledu yn Hydref 2020).

Bydd themâu'r gyfres yn cael eu hadlewyrchu ar draws amserlenni S4C ar y sgrin ac yn ddigidol drwy gydol cyfnod yr Ymgyrch, yn ogystal ag ystod o gyfleoedd i bobl gymryd rhan drwy gynnwys wedi'i gomisiynu a chynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfranwyr (UGC) ar draws gwahanol lwyfannau.

Bydd y ddwy gyfres hyn yn cyflwyno cyfleoedd i amlygu'r Ymgyrch ar wahanol adegau yn y flwyddyn drwy weithgareddau digidol a gweithgareddau mwy traddodiadol.  Nod yr Ymgyrch yw cefnogi ac ategu'r rhaglenni ar-sgrin a digidol.

***Negeseuon Craidd***

Dylai'r Ymgyrch greu sgwrs am hunaniaeth Gymreig trwy brism yr iaith a gofyn y cwestiynau canlynol i'r gynulleidfa:

- Beth mae bod yn Gymraeg neu fyw yng Nghymru yn 2020 yn ei olygu?
- Beth mae'r iaith yn ei olygu i siaradwyr a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg?
- Wrth i Gymru ddod yn fwy amrywiol, pa rôl y mae'r iaith yn ei chwarae o ran cofleidio ac annog yr amrywiaeth hwn?
- Beth yw'r prif rwystrau i ddefnyddio'r iaith a sut ydym yn eu goresgyn?
- Sut ydyn ni'n ymgysylltu'n benodol â phobl iau yn y drafodaeth hon?

***Cynulleidfa Darged***

Dylid anelu'r ymgyrch at y cynulleidfaoedd targed canlynol:

- Rhai di-Gymraeg – chwalu canfyddiadau a rhwystrau i ymgysylltu ag S4C a'u denu i weld cynnwys S4C a chymryd rhan yn y sgwrs;
- Defnyddwyr ysgafn (iaith a gwylwyr S4C) – cynyddu ymgysylltiad â'r sianel a chodi dealltwriaeth o'r hyn fydd yn eu hysgogi i wylio mwy o raglenni; a
- Cynulleidfa graidd S4C – i ail-gadarnhau safbwynt S4C yng nghalon yr iaith a'u hannog i rannu'r profiad positif o fywyd dwyieithog.

***Rhwydweithiau Cymorth***

Bydd disgwyl i'r Tendrwr llwyddiannus gydweithredu a/neu gydweithio â'r rhwydweithiau ategol canlynol fel rhan o'i strategaeth partneriaethau:

- Dylanwadwyr a chymunedau ar-lein;
- Rhanddeiliaid, Grwpiau Cynrychioliadol a Phartneriaid sydd â dylanwad a diddordeb mewn caffael iaith, er enghraifft:
  - Y Ganolfan Dysgu Cymraeg
  - Urdd Gobaith Cymru
  - Eisteddfod Genedlaethol
  - Mentrau Iaith Cymru;
- Rhanddeiliaid, Grwpiau Cynrychioliadol a Phartneriaid sy'n cysylltu'n rheolaidd â'r prif gynulleidfaoedd targed, er enghraifft:
  - Ysgolion a cholegau
  - Mudiad Meithrin
  - CFfI Cymru
  - Merched y Wawr; a
- Rhanddeiliaid mewnol ar draws sector cynhyrchu Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu cynnwys a rhaglennu'n uniongyrchol mewn perthynas â'r ymgyrch a/neu yn ei chefnogi e.e. Boom Cymru TV a Rondo Media.

***Amcanion y Cytundeb***

Bydd disgwyl i'r Tendrwr llwyddiannus:

- Rheoli prosiect yr Ymgyrch, drwy ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfryngau, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus;
- Datblygu a gweithredu 'strategaeth cynnwys greadigol' ar gyfer yr Ymgyrch, gan gynnwys datblygu a chyfleu cynnwys digidol;
- Cefnogi S4C i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid gyda'r Ymgyrch i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl; a
- Datblygu a gweithredu strategaeth fonitro a gwerthuso i olrhain ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch drwy gydol y flwyddyn.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y cytundeb ac anghenion S4C yn Rhan 2.

**Rhan 2 Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb**

## 2.1 Cwmpas y cytundeb

Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata aml-gyfrwng integredig ar gyfer yr ymgyrch #Iaith2020. Prif ofynion y cytundeb yw:

### A) Rheoli Prosiect yr Ymgyrch

Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus:

- Ddatblygu a gweithredu brand a hunaniaeth ar gyfer yr Ymgyrch;
- Datblygu a gweithredu strategaeth cyfryngau (gan gynnwys strategaeth cyfryngau cymdeithasol) ar gyfer lledaenu cynnwys digidol a deunyddiau eraill yr Ymgyrch, a all gynnwys sianeli a phlatfformau cyfryngau newydd a/neu bresennol; a
- Datblygu a gweithredu cynllun y wasg a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer yr Ymgyrch, a all gynnwys datganiadau i'r wasg, deunyddiau print, digwyddiadau ac ati.

### B) Strategaeth Cynnwys Digidol

Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus ddatblygu a gweithredu 'strategaeth cynnwys greadigol' ar gyfer yr Ymgyrch. Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus:

- Gynhyrchu a chyfleu cynnwys digidol creadigol i ategu negeseuon craidd yr Ymgyrch fel y nodir uchod. Mae S4C yn disgwyl i'r cynnwys digidol gefnogi ac ategu'r rhaglenni ar-sgrin a digidol a gomisiynir gan S4C. Mae S4C wedi awgrymu thema ar gyfer rhywfaint o'r cynnwys digidol isod - fodd bynnag rydym yn agored i awgrymiadau eraill ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn Tendrwyr am y thema hon:

  **'Cyfeillion y Gymraeg'** – un o'r themâu a awgrymir ar gyfer y strategaeth cynnwys digidol yw annog siaradwyr Cymraeg i bartneru â'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg er mwyn eu cynorthwyo i ddysgu Cymraeg. Gallai'r gweithgareddau gynnwys:
  - Cynnwys astudiaethau achos diddorol o ddysgwyr i gymell ac annog eraill;
  - Cynnwys a gynhyrchir gan y 'cyfeillion' (UGC); a
  - Cystadleuaeth i'r 'cyfeillion';
- Gwneud defnydd o wahanol ddulliau o ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol megis arolygon barn, hoffi ein tudalen, ac offer brodorol eraill (i'w trafod gyda S4C);
- Targedu'r gynulleidfa darged (fel y nodir uchod) a'u hannog i gymryd rhan yn y sgwrs am yr Ymgyrch; a
- Nodi a gweithio gyda 'dylanwadwyr' perthnasol ar gyfer y Gynulleidfa Darged er mwyn cyfleu negeseuon yr Ymgyrch.

### C) Strategaeth Partneriaethau

Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus gefnogi S4C i ddatblygu a gweithredu strategaeth i ddenu partneriaid a rhanddeiliaid i’r Ymgyrch i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl.

Bydd yn ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus weithio gydag S4C i ddatblygu dull 'Pecyn Cymorth Cyfathrebu' ar gyfer pecynnu deunyddiau’r Ymgyrch, gan gynnwys adnoddau printiedig ac electronig, i nifer o rwydweithiau cymorth (a amlinellir uchod) gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid pwysig. Dylai'r Pecyn Cymorth gael ei ategu gan ganllawiau ar sut y gall partneriaid a

**Rhan 3 Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr**

**3.1 Gwybodaeth Angenrheidiol**

Dylai'r Tendrwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb tendro er mwyn dangos yn fanwl sut y bodlonir gofynion S4C:

- **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol** yn y ffurf a gynhwysir yn Atodiad 3.

- **Dogfen Gynnig** yn nodi'r wybodaeth ganlynol:

i. Cynnig ar gyfer darparu'r gwasanaethau **Rheoli Prosiect Ymgyrch** gan gynnwys:

- 'Hunaniaeth' awgrymedig ar gyfer yr Ymgyrch;

- Argymhelliad ar gyfer y sianeli a'r platfformau cyfryngau i'w defnyddio fel rhan o'r Ymgyrch ar draws y flwyddyn, gan gynnwys pa sianeli cyfredol dylid eu defnyddio er mwyn gyrru cyrhaeddiad a pha sianeli newydd, os o gwbl, y dylid eu creu;

- Strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn edrych yn benodol ar:
  - a ddylai S4C greu a rheoli platfformau cyfryngau cymdeithasol newydd;
  - a yw'n fwy effeithiol i ddefnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli; a
  - pha blatfformau i'w blaenoriaethu gyda chynnwys gwahanol ar gyfer cynulleidfaoedd targed gwahanol;

- Argymhelliad ar a ddylid ceisio am bartneriaethau gyda pherchnogwyr cyfryngau; ac

- Amlinelliad o gynllun Gwasg a Chysylltiadau Cyhoeddus (i gynnwys datganiadau i'r wasg, deunydd print, digwyddiadau ayyb);

ii. Cynnig ar gyfer darparu'r **Strategaeth Cynnwys Digidol** gan gynnwys:

- Sut fydd y Tendrwr yn denu'r Gynulleidfa Darged â chynnwys digidol, gan gynnwys sut bydd yn gweithio â dylanwadwyr; ac

- Y math a'r maint o gynnwys digidol i'w gynhyrchu yn ogystal â ffurfiau eraill o gynnwys megis cynnwys a gynhyrchir gan gyfranwyr (UGC) a defnydd o offerynnau cyfryngau cymdeithasol;

iii. Cynnig ar gyfer darparu'r **Strategaeth Partneriaethau**;

iv. Cynnig ar gyfer darparu'r **Gwasanaethau Monitro a Gwerthuso** gan gynnwys:

- Argymhelliad o ran pryd y mae adrodd ar fonitro a gwerthuso yn fwyaf addas trwy gydol cyfnod yr Ymgyrch;

v. **Amserlen a Chynllun Misol** gan gynnwys:

- Amlinelliad o amserlen awgrymedig ar gyfer darparu pob un o'r strategaethau a amlinellir uchod am yr Ymgyrch gyfan; ac

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnig ar gyfer darparu'r gwasanaethau rheoli proseict Ymgyrch | 'Hunaniaeth' awgrymedig ar gyfer yr Ymgyrch.<br><br>Argymhelliad o strategaeth ar gyfer y sianeli a'r platfformau cyfryngau i'w defnyddio fel rhan o'r Ymgyrch, gan gynnwys disgrifiad o'r sianeli cyfryngau cyfredol a/neu newydd i'w defnyddio a/neu eu creu ac a ddylid ceisio am bartneriaethau gyda pherchnogwyr cyfryngau.<br><br>Strategaeth cyfryngau cymdeithasol awgrymedig ar gyfer yr Ymgyrch yn amlinellu'r platfformau cyfryngau cymdeithasol penodol cyfredol a/neu newydd a gaiff eu defnyddio ar gyfer cynnwys a chynulleidfaoedd gwahanol.<br><br>Amlinelliad o gynllun Gwasg a Chysylltiadau Cyhoeddus ar gyfer yr Ymgyrch. | A yw'r Tendrwr wedi darparu hunaniaeth a brand addas a chreadigol ar gyfer yr Ymgyrch?<br><br>A yw'r Tendrwr wedi darparu strategaeth addas, gafaelgar ac arloesol ar gyfer y sianeli a'r platfformau cyfryngau i'w defnyddio fel rhan o'r Ymgyrch ar draws y flwyddyn?<br><br>A yw'r Tendrwr wedi darparu strategaeth cyfryngau cymdeithasol addas, gafaelgar ac arloesol?<br><br>A yw'r Tendrwr wedi darparu cynllun Gwasg a Chysylltiadau Cyhoeddus addas, gafaelgar ac arloesol ar gyfer yr Ymgyrch? | **5%**<br><br>**5%**<br><br>**5%**<br><br>**5%** |
| Cynnig ar gyfer darparu'r Strategaeth Cynnwys Digidol | Disgrifiad o gynnig y Tendrwr ar gyfer denu'r Gynulleidfa Darged, gan sut bydd yn gweithio â dylanwadwyr.<br><br>Disgrifiad o syniadau'r Tendrwr ar gyfer y math a'r maint o gynnwys digidol i'w gynhyrchu yn ogystal â ffurfiau eraill o gynnwys megis cynnwys a gynhyrchir gan gyfranwyr (UGC) a defnydd o offerynnau cyfryngau cymdeithasol. | A yw'r Tendrwr wedi dangos y bydd ei gynnwys digidol yn denu'r Gynulleidfa Darged yn llwyddiannus yn unol â'r briff?<br><br>A yw syniadau cynnwys y Tendrwr yn dangos uchelgais olygyddol a chreadigol sy'n afaelgar, arloesol ac sy'n bodloni nodau craidd yr Ymgyrch? | **15%**<br><br>**15%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnig ar gyfer darparu'r Strategaeth Partneriaethau | Disgrifiad o strategaeth partneriaethau'r Tendrwr. | A yw'r Tendrwr wedi darparu strategaeth partneriaethau addas, gafaelgar ac arloesol? | **5%** |
| Cynnig ar gyfer darparu'r gwasanaethau Monitro a Gwerthuso | Disgrifiad o gynnig y Tendrwr ar gyfer monitro a gwerthuso'r Ymgyrch gan gynnwys adrodd i S4C. | A yw ymateb y Tendrwr yn dangos dull rhesymegol ac effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso'r gweithgareddau sy'n ofynnol gan y Gwasanaethau a gallu i weithredu unrhyw newidiadau gofynnol i'r Ymgyrch? | **5%** |
| Amserlen gyfleu a chynllun misol | Amserlen gyfleu'r Tendrwr ar gyfer darparu'r Gwasanaethau a chynllun/amserlen fisol enghreifftiol yn amlinellu'r strategaeth cynnwys digidol arfaethedig ar gyfer y mis cyntaf. | A yw'r Tendrwr wedi dangos y bydd yn gallu darparu'r gwasanaethau yn effeithiol ar hyd flwyddyn yr Ymgyrch? | **15%** |
| Profiad Perthnasol | Disgrifiad cynhwysfawr o brofiad perthnasol y Tendrwr yn y tair blynedd diwethaf. | A oes gan y Tendrwr brofiad perthnasol o ddarparu gwasanaethau tebyg yn y tair blynedd diwethaf? | **5%** |
| Personél Allweddol | Manylion yr aelod(au) o'r personél allweddol sy'n rhugl yn yr iaith Gymraeg.<br><br>Manylion staff allweddol y Tendrwr fydd yn gweithio ar ddarpariaeth y Gwasanaethau. | A oes gan y Tendrwr allu iaith Gymraeg digonol? Rhaid i'r Tendrwr sicrhau, erbyn dechrau'r cytundeb, bod ganddo o leiaf un aelod o'r personél allweddol (boed yn gyflogedig ai peidio) sy'n rhugl yn yr iaith Gymraeg.<br><br>A yw'r Tendrwr wedi dangos bod gan y personél allweddol y gallu i ddarparu'r gwasanaethau yn effeithiol? | **Pasio/Methu**<br><br>**5%** |

Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y matrics sydd yn nodi sut y bydd y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 3.1 uchod yn cael ei gwerthuso yn unol â'r meini prawf hyn.

**Gwerthuso'r Ffi**

